# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-15-09 Papur 2: 10 Tachwedd 2009

### Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau sydd wedi cael eu hystyried gan y Pwyllgor o'r blaen. Mae llawer o'r wybodaeth hon wedi dod i law ar ffurf gohebiaeth. Os yw hynny'n berthnasol, mae copïau o'r ohebiaeth i'w gweld fel atodiad i'r papur hwn yn PET(3) 15-09 Papur 2A

### (i) P-03-099 Llwybr ceffylau yn Nhalybont-ar-Wysg

### Geiriad y ddeiseb

'Rydym ni sydd wedi arwyddo isod yn gofyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddarparu llwybr ar gyfer holl ddefnyddwyr heblaw modurwyr  ochr yn ochr â'r A40 rhwng y gilfan bicnic yn y Bwlch a'r gyffordd newydd yn Nhalybont-ar-Wysg, gan greu cyswllt diogel rhwng y Mynydd Du a rhwydwaith Hawliau Tramwy Bannau Brycheiniog.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-99.htm

**Cynigiwyd gan:** Lucienne Bennett

**Nifer y llofnodion:** 18

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 21 Chwefror 2008, 8 Mai 2008, 31 Mawrth  2009, 19 Mai 2009, 7 Gorffennaf 2009 a 22 Medi 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Dirprwy Brif Weinidog ac mae wedi'i atodi fel rhan o PET(3) 15-09 Papur 2A.

### (ii) P-03-170 MENCAP Cymru

**Geiriad y ddeiseb**

Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Comisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cynulliad Cymru i arwain gyda golwg ar gyflogi mwy o bobl ag anableddau dysgu , ac i annog cyflogwyr eraill yn y sector cyhoeddus, megis y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol, i gyflogi mwy o bobl ag anableddau dysgu.  Dim ond 1 o bob 10 o bobl ag anableddau dysgu y mae arnynt eisiau gweithio sydd mewn unrhyw fath o gyflogaeth lle rhoddir tâl.  Mae hyn yn annheg.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-170.htm

**Cynigiwyd gan:** MENCAP Cymru

**Nifer y llofnodion:** 134

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 13 Ionawr 2009, 10 Chwefror 2009, 19 Mai 2009, 7 Gorffennaf 2009 a 22 Medi 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:**  Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ac mae wedi'i atodi fel rhan o PET(3) 15-09 Papur 2A.

### (iii) P-03-172 Adfer Fferi Abertawe-Cork

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog, ym mhob ffordd bosibl, adfer yn fuan Fferi Abertawe-Cork. Credwn y byddai i hynny fanteision economaidd a chymdeithasol pendant i'r naill economi a'r llall.    .

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-172.htm

**Cynigiwyd gan :** John Hosford

**Nifer y llofnodion:** Cynigiwyd y ddeiseb hon gan John Hosford a chasglodd 29 llofnod. Casglwyd dros 1,500 llofnod a datganiad o gefnogaeth ar wefan y deisebydd sy'n galw am adfer y llwybr fferi hwn.

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 16 Hydref 2008, 4 Rhagfyr 2008, 27 Ionawr  2009, 31 Mawrth 2009, 5 Mai 2009, 19 Mehefin 2009, 22

Medi 2009 a 20 Hydref 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Dirprwy Brif Weinidog ac mae wedi'i atodi fel rhan o PET(3) 15-09 Papur 2A.

### (iv) P-03-181 Anemia Dinistriol

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gydnabod nad yw'r diagnosis a'r driniaeth o Anemia Dinistriol yn ystyried anghenion unigol cleifion ac mae hyn yn aml yn cael effaith niweidiol ar brofiad y claf o reoli'r cyflwr. Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn gorchymyn bod diagnosio, monitro a thrin Anemia Dinistriol yn canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn er mwyn diogelu urddas a hawliau dioddefwyr y clefyd.

### Linc i'r ddeiseb: h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-181.htm

**Cynigiwyd gan:** The Pernicious Anaemia Society

**Nifer y llofnodion:** 20

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar :** 19 Mai 2009, 7 Gorffennaf 2009 a 22 Medi 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae i'w gweld fel rhan o PET(3) 15-09 Papur 2A.

### (v) P-03-188 Uned Gofal Arbennig i Fabanod

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn protestio yn erbyn israddio Uned Gofal Arbennig i Fabanod Ysbyty Brenhinol Morgannwg o uned gofal dwys lefel 3 i uned dibyniaeth mawr. Er ein bod yn deall yr angen i sicrhau bod y lefelau staffio'n ddigonol a bod gan y staff y cymwysterau addas i sicrhau bod cleifion yn ddiogel, rydym yn gresynu wrth y diffyg buddsoddi sydd wedi arwain at y sefyllfa hon.Rydym felly yn ceisio'r sicrwydd mai rhywbeth dros dro am yr amser byrraf bosibl yw'r israddio hwn, ac y bydd yr uned yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn cael ei hailsefydlu fel uned gofal dwys lefel 3 lawn.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-188.htm

**Cynigiwyd gan :** Zoe Walters

**Nifer y llofnodion:** 2240

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 20 Tachwedd 2008, 13 Ionawr 2009, 10 Chwefror 2009, 5 Mai 2009, 9 Mehefin 2009 a 22 Medi 2009.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae i'w gweld fel rhan o PET(3) 15-09 Papur 2A.

### (vi) P-03-207 Cymorth i'r diwaith ym Mynwy

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i ymchwilio i sut i ddarparu cymorth a gwybodaeth effeithiol i bobl yng Nghymru sy'n chwilio am waith, hyfforddiant neu sy'n ceisio cychwyn menter fusnes yn lleol.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-207.htm

**Cynigiwyd gan:** Bwyllgor Materion Cymunedol Cyngor Tref Mynwy

**Nifer y llofnodion:** 286

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 31 Mawrth 2009, 19 Mai 2009, 23 Mehefin 2009, 7 Gorffennaf 2009 a 22 Medi 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y deisebwyr, ac mae wedi'i atodi fel rhan o PET(3) 15-09 Papur 2A.

### (vii) P-03-208 Siroedd Hanesyddol

## Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gyfarwyddo'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru i gynnal adolygiad o'r ffiniau sirol a gedwir yng Nghymru. Dylai'r adolygiad hwn ystyried diwygio'r ffiniau sirol a gedwir ar hyn o bryd i gyd-fynd â ffiniau'r 13 o siroedd hanesyddol.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-208.htm

**Cynigiwyd gan:** Owain Vaughan

**Nifer y llofnodion:** 23

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 6 Hydref 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ac mae wedi'i atodi fel rhan o PET(3) 15-09 Papur 2A.

**(viii) P-03-213 Rhowch y gorau i'r cynllun difa moch daear (deiseb y Secret World Wildlife Rescue)**

## Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi'r gorau i'w gynllun arfaethedig i ddifa moch daear fel rhan o'i raglen dileu TB mewn gwartheg.  Mae hyn yn wyneb tystiolaeth wyddonol gadarn a adolygwyd gan gymheiriaid o'r Grŵp Gwyddonol Annibynnol. Mae'n nodi'n glir 'na all difa moch daear wneud unrhyw gyfraniad ystyrlon i reoli TB mewn gwartheg.Ymunwch â'n hymgyrch - rhowch ddiwedd ar y cynllun difa!

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-213.htm

**Cynigiwyd gan:** Secret World Wildlife Rescue

**Nifer y llofnodion:** 14098

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 5 Mai 2009, 23 Mehefin 2009, 22 Medi 2009 a 20 Hydref 2009.

## P-03-235 Rhowch y gorau i'r cynllun difa moch daear (deiseb y RSPCA)

## Geiriad y ddeiseb

Llofnodwch y ddeiseb heddiw a lleisio'ch barn yn erbyn penderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddifa moch daear yng Nghymru fel rhan o strategaeth i fynd i'r afael â TB mewn gwartheg.Mae'r RSPCA wedi cael ei synnu gan y penderfyniad i ddifa moch daear ond mae'n croesawu'r cynlluniau i brofi mwy o wartheg ac i wella bioddiogelwch.Bu'r Grŵp Gwyddonol Annibynnol yn goruchwylio arbrawf i ddifa moch daear yn Lloegr dros 10 mlynedd, a gostiodd £34 miliwn a lladd bron i 11000 o foch daear. Canfu'r ymchwil fod difa moch daear yn newid ymddygiad cymdeithasol y moch daear sy'n weddill, a bod hynny'n ei dro'n cynyddu'r risg y bydd afiechyd yn lledu i foch daear eraill a gwartheg. Dim ond drwy gael gwared ar foch daear dros ardaloedd eang iawn y gellir osgoi'r risg o afiechyd. Daeth y Grŵp Gwyddonol Annibynnol i'r casglu nad yw difa moch daear ar raddfa o'r fath yn opsiwn dichonadwy ar gyfer eu rheoli, a hynny oherwydd pryderon yn ymwneud ag elfennau ymarferol, economaidd, cyfreithiol, amgylcheddol a lles.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-235.htm

**Cynigiwyd gan:** RSPCA

**Nifer y llofnodion:** 304

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 22 Medi 2009 a 20 Hydref 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig, ac mae wedi'i atodi fel rhan o PET(3) 15-09 Papur 2A.

**(ix) P-03-220 Gostyngwch y terfyn cyflymder ar yr A40 ger y Fenni**

**Geiriad y ddeiseb**

Deiseb at Gynulliad Cenedlaethol Cymru:Er mwyn i gerddwyr allu cerdded yn ddiogel, teimlwn ei bod yn hanfodol bod y terfyn cyflymder o 40 mya ar yr A40 rhwng cylchfan Hardwick a Ffordd Plas Derwen yn cael ei ostwng i o leiaf 30 mya.

.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-220.htm

**Cynigiwyd gan:** y Cyngh Maureen Powell

**Nifer y llofnodion:** 220

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 19 Mai 2009, 7 Gorffennaf 2009 a 22 Medi 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Dirprwy Brif Weinidog, ac mae wedi'i atodi fel rhan o PET(3) 15-09 Papur 2A.

### (x) P-03-234 Mae ar Gymru angen mwy o goed brodorol

### Geiriad y ddeiseb

Mae angen rhagor o goed brodorol ar Gymru! Rydym ni sydd â'n henwau isod yn croesawu targed Comisiwn Coedwigaeth Cymru i greu 1,500 hectar o goetiroedd newydd dros y tair blynedd nesaf ac yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth i gyrraedd y targed hwn, a hynny fel y cam cyntaf tuag at ddyblu'r tir sydd wedi'i orchuddio â choetiroedd brodorol erbyn 2050. Cymru yw un o'r gwledydd sydd â'r gyfran leiaf o goedwigoedd yn Ewrop. Rydym yn cefnogi'r uchelgais a geir yn y Strategaeth Coetiroedd i Gymru i greu mwy o goetiroedd er budd pobl a bywyd gwyllt, i helpu i rwystro llifogydd, i storio CO2 o'r amgylchedd ac hefyd i roi cyflenwad cynaliadwy o bren ar gyfer y dyfodol.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-234.htm

**Cynigiwyd gan:** Coed Cadw (The Woodland Trust)

**Nifer y llofnodion:** 2165

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 22 Medi 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig ac mae i'w weld fel rhan o PET(3) 15-09 Papur 2A.

**(xi) P-03-237 Cefn Gwlad Cymru**

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i atal cefn gwlad Cymru rhag cael ei ddinistrio drwy sicrhau bod adeiladau diwydiannol mawr, fel gweithfeydd pŵer a ffatrïoedd, yn cael eu hadeiladu ar safleoedd tir llwyd, eu bod yn garedig i'r amgylchedd ac nad ydynt yn ddolur llygad.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-237.htm

**Cynigiwyd gan:** Sion Gilbey

**Nifer y llofnodion:** 43

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 22 Medi 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ac mae i'w gweld fel rhan o PET(3) 15-09 Papur 2A.

### (xii) P-03-238 Llygredd ym mornant Porth Tywyn

### Geiriad y ddeiseb

Deiseb gan drigolion Sir Gaerfyrddin yn gofyn am ymchwiliad cyhoeddus gan Lywodraeth cynulliad Cymru i'r llygredd carthffosiaeth ym Mornant Porth Tywyn a Bae Caerfyrddin.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-238.htm

**Cynigiwyd gan:** Rhys Williams

**Nifer y llofnodion:** 2240

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 22 Medi 2009

**P-03-241 Llanelli Star - achubwch ein carthffosydd**

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym ni'n cefnogi ymgyrch y Llanelli Star i wella ein carthffosydd, yn paratoi'r ffordd i gannoedd o swyddi ddod i'r ardal ac yn atal carthffosiaeth rhag cael ei gollwng a rhag dinistrio ein hamgylchedd.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-241.htm

**Cynigiwyd gan:** Llanelli Star

**Nifer y llofnodion:** 425

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 22 Medi 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ac mae wedi'i atodi fel rhan o PET(3) 15-09 Papur 2A.

**(xiii) P-03-239 Dysgu Gydol Oes ym Mhrifysgolion Cymru**

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym ni yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ofyn bod Prifysgolion Cymru yn darparu rhaglen dysgu gydol oes sy'n llawn ac yn amrywiol drwy wneud hyn yn amod ar unrhyw arian cyhoeddus y maent yn ei dderbyn.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-239.htm

**Cynigiwyd gan:** Nick Jones

**Nifer y llofnodion:** 10 (hefyd, casglodd y deisebydd 3000+ llofnod ar gyfer deiseb gysylltiedig â hi).

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 22 Medi 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ac mae wedi'i atodi fel rhan o PET(3)-15-09 Papur 2A.

### (xiv) P-03-240 Gwelliannau i'r A40 yn Llanddewi Felffre

**Geiriad y ddeiseb**

Oherwydd y lefel gynyddol o draffig, yn enwedig cerbydau nwyddau trwm, ar yr A40 ac oherwydd y ddarpariaeth annigonol o balmentydd a chroesfannau cerddwyr diogel, a gydnabyddir gan yr Asiantaeth Cefnffyrdd drwy ymchwil â gyflawnwyd ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i wella diogelwch ar y ffordd ym mhentre Llanddewi Felffre, Arberth, Sir Benfro, drwy roi'r mesurau a ganlyn ar waith, a hynny ar fyrder:

Gwella'r palmant annigonol ar hyd ochr ddeheuol yr A40 rhwng Llandaff Row a phen dwyreiniol y pentref i sicrhau ei fod yn boddhau safonau diogelwch presennol, a'i fod yn ddigon llydan i gael ei ddefnyddio'n ddiogel gan gerddwyr, cadeiriau gwthio a chadeiriau olwyn gan roi ystyriaeth i'r ffaith bod cerbydau nwyddau trwm yn gyrru heibio'n agos ac yn aml yn gyrru yn gyflymach na'r terfyn cyflymder presennol o 40 mya.

Gosod camerâu cyflymdra yn nwyrain ac yng ngorllewin y pentref.

Defnyddio system drydanol sydd eisoes yn bodoli ar gyfer arwyddion i groesi'r ffordd er mwyn darparu goleuadau rhybudd sy'n fflachio ar adegau pan fydd plant yn croesi'r A40 i ddal eu bws ysgol.

Gosod mesurau i ostegu traffig bob ochr i'r pentref ac ar gyffyrdd i bwysleisio'r angen i arafu.

Gostwng y terfyn cyflymder i 30mya.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-240.htm

**Cynigiwyd gan:** Gyngor Cymuned Llanddewi Felffre

**Nifer y llofnodion:** 154

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 22 Medi 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Dirprwy Brif Weinidog ac mae i'w weld fel rhan o PET(3) 15-09 Papur 2A.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Tachwedd 2009**